

Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI (FAN)

# Cronfa Arddangos Ffilmiau (CAFF) Canllawiau 2022

*Cefnogi cyrff sydd yn cyflwyn ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol i gynulleidfaedd ar draws Cymru a'r DU*



Delwedd: Cellb © Lara Usherwood



**CHAPTER**

# Gwybodaeth allweddol yn gryno:

Cyfanswm sydd ar gael: £70,000

**Cyllid:** hyd at £10k

**Ceisiadau'n agor:** w/c Dydd Llun 14 Chwefror, 2022

**Ceisiadau'n cau:** 9am, Dydd Llun 21 Mawrth, 2022

Fe fydd ail gylch yn agor yn Ebrill gyda dyddiad cau ceisiadau ar Ddydd Llun 2 Mai 2022

**Ffenestr gweithgarwch:** Ebrill 2022 - Rhagfyr 2022 (os bydd eich cynlluniau yn disgyn rhwng Ionawr - Mawrth 2023, cysylltwch â ni)

**Nod:** Helpu i alymgysylltu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau Prydeinig (yn cynnwys Cymreig) a rhyngwladol.

**Nodwch:** Dylai dyddiad cychwyn eich gweithgaredd fod o fis Ebrill ymlaen er mwyn caniatâu ar gyfer penderfyniadau ariannu. Sylwch y bydd cadarnhad terfynol o gefnogaeth yn amodol ar argaeledd Arian y Loteri.

# Cyflwyniad

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi cyrff sydd yn dangos ffilmiau i gynulleidfaoedd cyhoeddus, o wyliau ffilm, i gymdeithasau a chanolfannau celfyddyd cymysg. Nod y gronfa yma ydy cyflwyno'r gorau o ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol i gynulleidfaoedd ar draws Cymru.

Rydym yn rhan o rwydwaith DU gyfan o wyth o ganolfannau a gyllidir gan y Loteri Cenedlaethol drwy Sefydldad Ffilm Prydeinig (BFI). Rydym yn ffurfio'r Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) gyda Chapter wedi'i benodi fel y 'Corff Arweiniol Canolfan Ffilm' (FHLO) yng Nghymru.

Am enghreifftiau o'n gwaith hyd yn hyn, edrychwch [uchafbwyntiau Canolfan Ffilm Cymru](#).

## Beth ydy'r Gronfa Arddangos Ffilmiau (CAFF)

Nod CAFF ydy cefnogi arddangoswyr ffilmiau annibynnol wrth iddyn nhw ailddechrau rhaglenni datblygu cynulleidfa yn dilyn Covid-19. Rhaid i weithgaredd ateb amcanion craidd FAN:

- Datblygu ac ymgysylltu cynulleidfaedd ar gyfer ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol,
- Creu sector cysylltiedig a hyderus i ddsbarthu ac arddangos ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol

Rydym yn chwilio am gynigion gan aelodau'r Ganolfan a fydd yn ein helpu i ateb nodau FAN yn ystod y cyfnod Ebrill 2022 - Rhagfyr 2022. Os bydd eich cynlluniau yn disgyn rhwng Ionawr - Mawrth 2023, cysylltwch â ni.

Mae'r gronfa wedi'i chynllunio i helpu aelodau i ailennyn diddordeb cynulleidfaedd, sy'n golygu nad cefnogi prosiectau neu sefydliadau newydd yw'r flaenoriaeth, ond rhaglenni allweddol gydol y flwyddyn sy'n cydweithio gyda blaenoriaethau'r Hyb.

Rhaid i gynigion hefyd ddangos sut y byddan nhw'n gweithredu yn ddiogel yn ystod Covid-19 a gellir cyfeirio at [Sinemâu UKCA - cadw gweithwyr a chwsmeriaid yn ddiogel yn ystod Canllawiau Covid-19](#).



# Ein blaenoriaethau

Caiff pob cynnig ei asesu yn erbyn y gallu a'r potensial i ddiwallu un neu ragor o amcanion craidd FHW:

## Cynhwysiant

Rhaglenni ystyrion gydol y flwyddyn sydd yn dathlu amrywiaeth ar y sgrin, yn y gynulleidfa a thu ô i'r camera:

- Arweinyddiaeth amrywiol: Rhaglenni wedi'u harwain gan ac ar gyfer cymunedau lleiafrifol (e.e. cynulleidfa LGBTQIA+, POC Du ac heb fod yn Ddu, grwpiau oedrannus, anghenion amlsynhwyrdd, cynulleidfaoedd anabl, cymdeithasol economaidd isel, gwledig ac wedi'u tanwasanaethu, grwpiau ynysig, ieithoedd lleiafrifol)\*
- Gwaith allgyrraedd neilltuol sydd yn dod â chynulleidfaoedd i'r gofod ffilm.
- Rhaglenni ffilm sydd yn cynrychioli diwylliannau a hunaniaethau amrywiol ar ac oddi ar y sgrin.

\*mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed oddi wrth aelodau sydd yn creu rhaglennu hygyrch i gynulleidfaoedd gyda namau clyw neu golwg.

## Cynulleidfaoedd ifanc

Gwella mynediad drwy gydol y flwyddyn i ffilmiau i gynulleidfaoedd ifanc rhwng 16-30 oed,

- Dewisiadau o ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol yn rheolaidd ar bris fforddiadwy.
- Anogaethau neu atebion teithio i gynulleidfaoedd ifanc neu deuluoedd mwy ynysig.
- Cyfleoedd i gasglu adborth gan ac adeiladu sgiliau i gynulleidfaoedd ifanc sydd yn gallu ffurfio rhaglenni yn y dyfodol.
- Cynlluniau curadurol ifanc,
- Prosiectau partneriaeth gydag Into Film ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed sydd yn creu perthnasoedd cryf rhwng cynulleidfaoedd ifanc a'u lleoliadau lleol.

Lle mae prosiectau yn ymgysylltu â phobl ifanc, bydd angen i sefydliadau ddangos bod nhw'n defnyddio bolisiau amddiffyn priodol.



# Ymgysylltu gyda Chynulleidfaoedd

Denu a chynnal cynulleidfaoedd ar gyfer sinema Prydeinig annibynnol (yn cynnwys Cymreig) a rhyngwladol, gan gynnig profiad diwylliannol dwfn:

- Cyflwyno ffilmiau rhyngwladol neu annibynnol Prydeinig ochr yn ochr â rhaglenni ffilm prif ffrwd, neu raglenni arbenigol trwy gydol y flwyddyn,
- Tymhorau â thema sy'n cyd-fynd ag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol neu ddigwyddiadau diwylliannol ehangach. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan aelodau sy'n archwilio [Degawd o ieithoedd brodorol](#),
- Ychwanegwyd dulliau marchnata, cysylltiadau cyhoeddus ac allgymorth sy'n profi ffyrdd o ddenu cynulleidfaoedd,
- Defnyddio technolegau digidol, asedau creadigol neu weithgareddau dysgu i hyrwyddo ymgysylltiad cyfoes â ffilm, fel sesiynau Holi ac Ateb byw neu vox pops, neu grwpiau trafod ar ôl y ffilm,
- Casglu data sy'n eich galluogi i ddeall eich cynulleidfaoedd yn well,
- Gwyliau neu rwydweithiau arloesol sydd yn annog modelau darpariaeth cynaliadwy a chynulleidfaoedd yn dychwelyd i sinemau Prydeinig, rhyngwladol ac annibynnol. Gellir hefyd gofyn am gyllid gan [Ffilm Cymru Wales](#) ar gyfer cyllido gwyliau neu ar gyfer gwyliau o arwyddocad cenedlaethol o [Gronfa Cynulleidfa BFI](#).

Gweler hefyd ein [Trosolwg Wyliau](#) ar gyfer cefndir.





# I ddathlu ffilmiau â chysylltiadau Cymreig, a all gynnwys:

- Prosiectau sy'n archwilio hunaniaeth Gymreig ar y sgrin,
- Cynnig llwyfan i dalent Cymreig,
- Rhaglenni tymor hirach, sy'n dangos ymrwymiad i ddatblygu cynulleidfaoedd ffilm Cymraeg ar draws y flwyddyn, gan gynnwys datganiadau newydd a theitlau hanesyddol, lle bo modd.
- Marchnata creadigol, siaradwyr gwadd, gweithdai, sgysiau, dolenni i ffilmiau treftadaeth a grwpiau trafod,
- Cyflwyno yn Gymraeg / yn ddwyieithog, gweithio gyda chanolfannau iaith Gymraeg, arbenigwyr a grwpiau gwirfoddol lle bo hynny'n fuddiol i hyrwyddo ffilmiau yn y Gymraeg,
- Prosiectau cydweithredol sy'n arwain at ddangos ffilmiau Cymreig ar draws mwy o sgriniau, gydag ymgyrchoedd sy'n wynebu'r gynulleidfa,
- Cynnwys ffilm Gymraeg mewn tymhorau thematig ehangach.

Gweler [Gwnaethpywd yng Nghymru](#) am ragor o fanylion ar sut y gallwn eich cefnogi i gael rhagolwg o'r ffilmiau diweddaraf a chael mynediad i asedau i gy~d-fynd â'ch ddangosiadau.

## Treftadaeth

Dathlu ein hunaniaeth cenedlaethol, iaith a diwylliant drwy ffilm.

- Hwyluso rhagor o fynediad i dreftadaeth sgrin gan ganolbwyntio ar gasgliadau cenedlaethol a rhanbarthol, cynyddu gwerthfawrogiad ar gyfer ffilmiau treftadaeth ar draws pob oedran.

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed gan aelodau sydd am gymryd rhan yn [The Story Trails project](#) (rhan o UNBOXED: Creativity in the UK). Bydd o'n digwydd rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2022, gan ddefnyddio treftadaeth i archwilio straeon coll neu heb eu hadrodd ond sydd wedi lunio ein cymunedau. Cysylltwch am ragor o wybodaeth.

## Sgiliau

- Gweler ein [Canllawiau Hyfforddi](#) i wneud cais am fwrseriaeth sgiliau.



# Ein Hymrwymiad i Gynhwysiant

## Safonau Amrywiaeth BFI

Ein nod yw sicrhau bod cynulleidfaoedd sydd yn cael eu effeithio'n anghymesur, fel, POC Du neu POC heb fod yn Ddu, pobl anabl, Byddar a niwroamrywiol yn gallu profi ffilmiau annibynnol a chael eu croesawu i'r sinema.

Rhaid i gynigion allu nodi sut y byddant yn mynd i ddilyn [Safonau Amrywiaeth BFI](#), hyrwyddo cynwysoldeb ymhlith cynulleidfaoedd, ar y sgrin ac yn y gweithlu. Rhoddir blaenoriaeth i gynigion sy'n gwneud hyn mewn ffordd ystyrlon.

Mae'r Safonau yn canolbwynto ar dangynrychiolaeth mewn perthynas ag oedran, ethnigrwydd, rhyw, LGBTQ+, crefydd a chred ([yn ôl Deddf Cydraddodeb 2010](#)) yn ogystal â chefnidir cymdeithasol economaidd a lleoliad daearyddol.

Mae Sinema Cynhwysol wedi lansio canllaw newydd '[Datgymalu Anghydraddoldeb Strwythurol yn Eich Sinema](#)' i gefnogi gweithredu.

Mae tîm y Ganolfan ar gael i helpu ymgeiswyr i ddehongli'r Safonau, cysylltwch am ragor o wybodaeth. [Gweler ein henghraifft o arfer gorau yma.](#)



# Meysydd Canolbwyntio Ychwanegol

## Cynaliadwydd Amgylcheddol

Rydym yn ymrwymedig i leihau effaith amgylcheddol y gwaith a gefnogwn ac rydym yn gofyn i bawb sydd yn derbyn cyllid i wneud yr hyn a allant i gyfrannu at y nod yma.

Fel rhan o'ch cais, gofynnir i chi pa fesurau y gallech eu cymryd i gadw effaith amgylcheddol eich prosiect i'r lleiaf.

Mae rhai enghreifftiau ysbrydoledig o arddangoswyr sydd yn gwneud gwaith yn y maes yma yn cynnwys Scott Cinemas, HOME, Curzon and Depot. Mae gennym hefyd restr o adnoddau ar ein gwefan, yn cynnwys [Pecyn Cymorth Gwyrddu Eich Sinema](#).

## Ataliad Bwlio, Aflonyddu a Hiliaeth

Datblygodd BFI a BAFTA set o egwyddorion a chanllaw goddefiad sero mewn ymgynghoriad gyda chyrrff, undebau a chyrrff y diwydiant ar draws y diwydiant ffilmiau, teledu a sinemaau mewn ymateb i broblemau brys a systematig. [Mae'r dogfennau ar gael yma](#).

Gofynnwn i'r holl ymgeiswyr ymgysylltu gyda'r egwyddorion yma drwy, ar y lleiaf, eu darllen a'u rhannu o fewn eich corff.

\*Dydy cynaliadwyedd amgylcheddol a Bwlio, Aflonyddu a Hiliaeth ddim yn feini prawf asesu ffurfiol ond defnyddir yr wybodaeth a ddarparwch i fesur sut y gallwn eich cefnogi ymhellach yn y maes yma a sicrhau arfer gorau ar draws y Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm.

Os bydd costau ychwanegol cymhedrol ynghlwm gyda gweithredu arfaethedig gallwch gynnwys y rhain yn eich cyllideb ar gyfer eu hystyried.

Os ydych eisiau codi unrhyw ymholiadau neu bryderon [darllenwch ein proses adborth a chysylltwch gyda ni yma](#).



# Pwy sydd yn gallu wneud cais?

Rhaid i chi fod yn aelod Canolfan i fanteisio ar gyfleoedd cyllido Canolfan Ffilm Cymru. I ddod yn aelod, llanwch ein [Ffurflen Gais](#).

Gall cyrff sydd wedi derbyn cyllid CAFf am 2021/22 wneud ail gais ond rhaid i'r gweithgaredd fod yn wahanol.

## Am faint y gallaf wneud cais?

Gall aelodau ofyn am hyd at £10,000 fesul cynnig.

Cyfartaledd y cyllid ar gyfer CAFf yn 21/22 oedd £3,785 (y lleiaf oedd £216 a'r mwyaf oedd £10,000). Fe fydd angen i geisiadau am symiau mwy allu dangos cyrhaeddiad cynulleidfa amlwg, rhaglen amrywiol ac ni ddylai cyrff fod yn gweithio yn ynysig.

Nid ydym yn gallu cyllido 100% o gostau gweithgaredd. Er nad oes gennym fynediad canran penodedig ar gyfer cyllid cyfatebol, rydym yn disgwyl gweld incwm gwerthiant tocynnau a chefnogaeth partneriaeth arall – boed mewn arian parod, amser gwirfoddoli neu gyfraniadau mewn modd eraill – yn gynwysiedig yn y gyllideb.

Fe fydd dau ddyddiad cau ar gyfer y cynigion terfynol: **9am, dydd Llun 21 Mawrth, 2022 a 5pm Dydd Llun 2 Mai 2022.**

Rhaid gorffen eich gweithgaredd erbyn 31 Rhagwyf 2022. Os bydd eich cynlluniau yn disgyn rhwng Ionawr - Mawrth 2023, cysylltwch â ni. Argymhellir cyflwyno yn gynnar.

## Defnydd y cyllid

Costau cymwys:

- HawLiau a chludiant ffilmiau,
- Clirio hawliau a churadu,
- Costau staffio yn benodol i weithgaredd e.e. rheolaeth prosiect neu gostau teithio,
- Llogi lleoliad neu offer
- Marchnata, hysbysebu a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Costau digwyddiad e.e. ffioedd siaradwr, talent neu artist,
- Costau gwirfoddolwyr,
- Costau gwerthuso,
- Hygyrchedd – e.e. deunyddiau cefnogi, ffioedd is-deitlo,
- Allgyrraedd e.e. trafniadaeth i gynulleidfaoedd ynysig,
- Datblygiadau cynulleidfa eriall e.e. gweithdai rhaglenwyr ifanc,
- Gweithgaredd ar-lein fel platfform gwe ffioedd cynnal ,
- Costau cyfieithu

**Dydy'r rhestr yma ddim yn gyflawn a gellir ystyried eitemau eraill.**

\*Mae aelodau yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gymdeithasau ffilm, sinemau cymunedol, gwyliau ffilm, sinemau masnachol annibynnol (lleoliadau eiddo preifat sy'n dangos ymrwymiad i ffilmiau annibynnol) darparwyr digwyddiadau/pop yp, archifau, darparwyr/sefydliadau addysg ffilm, darlledwyr, dosbarthwyr ffilmiau, amlblethiadau a chyrrff celf ehangach/heb fod yn ffilm.

## Costau anghymwys:

- **Premier ffilmiau,**
- **Gwneud ffilmiau:** yn cynnwys costau datblygu, cynhyrchu, dosbarthu neu ieuencid yn gwneud ffilmiau. Efallai yr hoffech edrych ar gyllid cynhyrchu, datblygiad [neu addysg Canolfan Ffilm Cymru](#) ochr yn ochr gyda [Rhwydwaith BFI](#). Edrychwch ar ein [tudalen gwneuthurwyr ffilmiau/dosbarthwyr](#) i weld sut y gallwn hyrwyddo ffilmiau sydd wedi eu cwblhau.
- **Prosiectau ffilm ysgolion ffurfiol** sydd yn digwydd ar dir ysgol, yn cynnwys clybiau ffilmiau. [Cysylltwch gyda Into Film Cymru](#).
- Cyfalaf ar gyfer offer ffilm newydd neu waith trwsio adeiladau yn cynnwys PPE sydd yn angenrheidiol oherwydd Covid 19. Dylid cyfeiro ymholiadau at [Gyngor Celfyddydau Cymru](#), darparwyr loteri eraill fel [Cronfa Gymunedol y Loteri Cenedlaethol](#) neu ymddiriedolaethau neu sefydliadau priodol.
- **Sefydlu clwb/cymdeithas ffilm newydd** (gallwn gefnogi rhaglennu unwaith mae'n fyw). Mae gwybodaeth ar gael hefyd drwy [Sinema i Bawb. Rydym hefyd yn cynnig cynllun llogi offer symudol](#).
- **Digwyddiadau ffilm caeedig sydd ddim yn agored i'r cyhoedd**, yn cynnwys digwyddiadau ffilm myfyrwyr, arddangosfeydd diwydiant neu ddigwyddiadau heb docynnau lle na ellir adrodd ar niferoedd.
- **Rhaglenni lle nad ydy ffilm yn ffurf celfyddyd canolog**, fel opera, llenyddiaeth, dawns ar ffilm, neu raglenni cyfan o ddelwedd symud artistiaid.
- **Costau rhedeg cyffredinol** cyrff heb fod yn berthynol i'r gweithgaredd, gweithgaredd sydd eisoes yn cael eu cynnwys mewn trefniadau cyllido cyffredol,
- Rhaglenni sydd yn dyblygu darpariaeth yn yr un ardal.
- Oherwydd yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, ac ymrwyniad FAN i gynaliadwyedd amgylcheddol, ni fydd digwyddiadau Gyrru i Mewn yn cael eu cefnogi drwy'r gronfa yma Fe fydd gweithgaredd ar-lein yn flaenoriaeth dim ond pan fydd yn cyd-fynd gyda gwaith 'mewn lleoliad'.

## Sut i wneud cais am gyllid

Er mwyn gwneud cais am gyllid gofynnir i chi gyflwyno ffurflen gynnig fer a chyllideb.

Os oes gennych ofynion mynediad sydd yn golygu eich bod angen cymorth wrth wneud cais am gyllid BFI, efallai y gallwch ofyn am gymorth ariannol drwy Gynllun Cymorth Mynediad BFI. [Mae rhagor o wbodaeth ar gael yma](#).

## Meini prawf asesiad

Caiff eich cynnig ei asesu gan dîm Canolfan Ffilm Cymru. Fe fyddwn yn edrych yn benodol ar:

- **Cymhwyster gweithgarwch:** ydy'r gweithgaredd arfaethedig yn ateb blaenoriaethau a graddfa amser y gronfa,
- **Cyrhaeddiad cynulleidfa:** beth ydy'r targedau cynulleidfa a fydd y gweithgaredd arfaethedig yn eu cyflawni? Fe fydd nawdd y pen yn ystyriaeth. Tra ein bod yn gwerthfawrogi y bydd rhagweld derbyniadau yn anodd yn y cyd-destun cyffredol darparwch amcangyfrifadau os gwelwch yn dda,

- **Effaith:** beth ydy uchelgais diwylliannol y rhaglen arfaethedig? Oes partneriaethau perthnasol i gyflawni'r gweithgaredd yn effeithiol?
- **Profiad sefydliadol:** ydy'r corff yn gallu cyflawni'r gweithgaredd arfaethedig, yn cynnwys darparu marchnata, datblygu cynulleidfa a chynlluniau gwerthuso?
- **Cyllideb:** ydy'r holl gostau rhesymol wedi cael eu hystyried? Ydy'r gyllideb yn cydbwysu ac ydy'r holl gostau yn gymwys? Ydy costau mynediad yn gynwysiedig?
- **Gwaddol:** beth ydy'r cynlluniau tymor hirach i barhau i gyrraedd cynulleidfa oedd?
- **Safonau Amrywiaeth BFI:** ydy'r cynnig yn delio yn glir gyda Safonau Amrywiaeth BFI?

Rhowch enghreifftiau wrth ateb pob cwestiwn yn eich cais, i'n helpu i ddeall sut rydych yn ddilyn y meini prawf.

**Noder os gwelwch yn dda ein bod yn disgwyl y bydd y gronfa yma wedi gordanysgrifio ac na fyddwn efallai yn gallu cyllido eich gweithgaredd hyd yn oed os yw'n ateb y meini prawf.**

## Penderfyniadau ac Adborth

### Cynigion aflwyddiannus

Os bydd eich cynnig yn aflwyddiannus, byddwn yn cysylltu gyda chi ar e-bost. Dydy bod yn aflwyddiannus ddim yn eich atal chi rhag manteisio ar gyfleoedd y Ganolfan yn y dyfodol.

### Cynigion llwyddiannus

Os ydy eich cynnig yn llwyddiannus, gall y tîm drafod unrhyw newidiadau sydd eu hangen ac efallai eisiau gweld cynllun diwygiedig cyn cadarnhau cyllid. Fe fydd angen i linellau amser gweithgaredd roi ystyriaeth i hyn.

Os nad oes argymhellion neu newidiadau i'w gwneud, fe fyddwch yn derbyn cadarnhad ar e-bost yn nodi telerau ac amodau ynghlwm gyda'r cyllid fel gwybodaeth talu, canllawiau rhoi cydnabyddiath ac adrodd. Fe fydd angen i'r holl weithgaredd a gyllidir gynnal arolwg cynulleida gan ddefnyddio ein templed safonol.

## Cwynion ac Apeliadau

Mae'r penderfyniad cyllido yn derfynol. Bydd ceisiadau'n annorfol yn cael eu gwrthod a gall fod ymgeiswyr yn siomedig gyda'r canlyniad yma. Ni chaiff apeliadau ffurfiol yn erbyn y penderfyniad terfynol eu hystyried oni bai bod gan yr ymgeisydd reswm da i gredu na chadwyd at y weithdrefn ar gyfer prosesu'r cais, neu ei bod wedi ei defnyddio mewn modd oedd yn rhagfarnu canlyniad y cais.

## Camau Nesaf

Os hoffech drafod cynnig potensial gyda FHW cyn y cais, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

- Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu - [lisa@filmhubwales.org](mailto:lisa@filmhubwales.org) / 02920 311067
- Hana Lewis, Rheolwraig Strategol y Ganolfan - [hana@filmhubwales.org](mailto:hana@filmhubwales.org) / 02920 353740



# Cyllid arall sydd ar gael

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn cynnig cyfleoedd drwy gydol y flwyddyn ar gyfer gweithgaredd arddangos annibynnol yng Nghymru. Rydym yn cynnig dau faes o gyllid ar draws 'hyfforddiant' a 'chynulleidfaoedd'. Gall aelodau wneud cais i'r canlynol:

## Cynulleidfaoedd:

- [Cronfa Arddangos Ffilm \(CAFF\)](#)
- [Pot cynnig CAFF](#) (digwyddiadau sengl neu raglenni tymor byr)
- [Gwnaethpwyd yng Nghymru](#) (dylid gwneud ceisiadau i CAFF)
- [Ffilmiau newydd](#)
- [Rhaglenni Mawr BFI FAN](#)
- [Amseroedd yn Newid \(treftadaeth\)](#)

## Hyfforddiant:

- [Bwrseriaethau](#)

Rydym hefyd yn cynnig digwyddiadau rhwydweithio, cyrsiau hyfforddi, cymorth marchnata, a newyddion diwydiant.

## Dim yn aelod o Ganolfan Ffilm Cymru?

Mae ein haelodaeth am ddim i gyrff cymwys ac mae'n cynnig mynediad i'n hamrediad o gyllid, cefnogaeth a manteision. [Darllenwch ein canllawiau i aelodau ac ymunwch yma.](#)

Delwedd: WOW Women's Film Club: Gentle/Radical & WOW Film Festival © Tracey Paddison



@FilmHubWales

Chapter, Heol y Farchnad, Caerdydd, CF5 1QE  
[www.canolfanffilmcymru.org/cy/](http://www.canolfanffilmcymru.org/cy/)